# Adolygiad Blynyddol

## Ebrill 2022—Mawrth 2023


Rhif elusen gofrestredig: 1086434
Rhif cwmni: 04033853




















Mae TCC yn mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol trwy gefnogi cymunedau amrywiol i ennill y pŵer sydd ei angen i gyflawni newid. Rydym yn gwneud hyn trwy drefnu cymunedol: dod â grwpiau lleol ynghyd, eu cefnogi i osod eu hagenda eu hunain, gweithredu, a gwella cymunedau.

Mae ein haelod-grwpiau yn llawer o grwpiau cymunedol gwahanol, grwpiau ffydd, ac ysgolion o bob rhan o Wrecsam, Sir y Fflint, a Sir Ddinbych. Yn ein cyfarfodydd misol, gall unrhyw un o'n haelodau godi mater i TCC weithio arno, sy'n golygu bod ein haelodau wir yn gosod ein hagenda. Unwaith y cytunir arno, rydym yn ymchwilio i'r mater yn drylwyr, gan ddarganfod pwy arall allai fod yn gysylltiedig, a phwy sydd â'r pŵer i wneud penderfyniad. Yna rydym yn cefnogi'r bobl y mae'r mater yn effeithio arnynt i arwain ymgyrch, gan gyfarfod yn uniongyrchol â'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i greu newid.

Rydym yn gweithio yn y maes cyhoeddus, yn aml â'r rheiny sydd mewn grym, ond nid oes gennym unrhyw deyrngarwch gwleidyddol. Ein prif nod yw meithrin perthnasoedd a grym yn y gymuned, fel bod pobl yn gallu dweud eu dweud ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Ers ei sefydlu yn 1995, mae TCC wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth wneud hynny, ac yn 2016 enillodd Gwobr Elusen y Guardian.

Mae'r Adolygiad Blynyddol hwn yn amlinellu rhai o'n llwyddiannau o'r flwyddyn ddiwethaf. Mae Adroddiad Blynyddol llawn sy'n cynnwys y cyfrifon a archwiliwyd yn annibynnol ar gael o swyddfa'r TCC a chan y Comisiwn Elusennau.









# Hyfforddiant

Mae TCC wedi hyfforddi a datblygu cynghrair gynyddol o arweinwyr cymunedol pwerus yng Ngogledd Cymru ers 1995— Mae meithrin perthnasoedd a phŵer adeiladu yn genhadaeth hirdymor, ac mae'r sesiynau hyfforddi a gynigiwn wedi cael eu datblygu dros y blynyddoedd gan aelodau, trefnwyr ac arweinwyr profiadol gwreiddiol TCC.

Gwnaethom redeg sesiwn 'Cyflwyniad i Drefnu Cymunedol' hanner diwrnod yng nghanol 2022, a hyfforddiant preswyl ym mis Hydref 2022.

Yn ogystal, fe wnaethom hefyd gynnal hyfforddiant Trefnu Arweinwyr Ifanc ar gyfer Senedd yr Ifanc (Senedd Ieuenctid Wrecsam) ym mis Ionawr 2023. Cafodd pob sesiwn sylwadau hynod gadarnhaol - gellir gofyn i Swyddfa TCC am ystadegau manwl ac adborth. Mae cynlluniau ar gyfer hyfforddiant ychwanegol yn parhau i dyfu, wrth i ni geisio cynyddu darpariaeth ar gyfer: arweinwyr ifanc, gweithdai'r Haf, a gweithredu digidol.

# Uwchgynhadledd Costau Byw

Daeth grwpiau cymunedol at ei gilydd ar gyfer Uwchgynhadledd Costau Byw ar fore 30ain Medi 2022 yng Nghanolfan Hamdden Plas Madoc, Wrecsam. Bu We Are Plas Madoc, Canolfan Byw'n Annibynnol FDF, Arth and Soul Tribe, Dinas Noddfa Sir y Fflint, â chefnogaeth gan TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities) ac Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau yn cydweithio i drefnu'r digwyddiad.

Mae elusennau, grwpiau lleol, gweithwyr allweddol a gwirfoddolwyr ar flaen y gad yn yr argyfwng costau byw presennol, ac maent wedi cefnogi pobl trwy flynyddoedd anodd ag adnoddau cyfyngedig. We Are Plas Madoc cynhaliodd yr uwchgynhadledd, sefydliad sydd eisoes yn cefnogi pobl trwy'r argyfwng trwy drefnu sesiynau cymdeithasol, gweithgareddau fforddiadwy, cynllun trafnidiaeth i bobl fynychu apwyntiadau meddyg teulu a chael eu siopa wythnosol.











# Ysgogwr Newid 100

Roeddem yn falch o gyhoeddi ein bod yn cael ein cynnwys fel un o 100 Ysgogwr Newid Cenedlaethau'r Dyfodol - derbyniwyd y wobr mewn seremoni fawreddog yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd.

FUTURE GENERATIONS
CHANGEMAKER
100

Mae'r rhestr Ysgogwyr Newid yn cynnwys 100 o unigolion a sefydliadau bach a mawr, y gwelir eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r byd.

Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe: "Mae'r digwyddiad hwn yn ymwneud â chydnabod rhai o'r bobl sy'n arddangos beth sy'n digwydd pan fyddwn yn rhoi llesiant yn gyntaf, yn gweithio â'n gilydd ac yn ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd, ac yn tynnu sylw at yr angen i gefnogi ysgogwyr newid fel y gallant wella cymdeithas i bawb.

**Ein haelodau** Ar hyn o bryd, mae gennym 35 o grwpiau sy'n aelodau, ac rydym bob amser yn chwilio am grwpiau newydd i ymuno â ni. Mae pob grŵp yn talu tanysgrifiad aelodaeth blynyddol, ar sail eu maint a'u hincwm. Fodd bynnag, fel y gwelwch, daw'r rhan fwyaf o'n cyllid o grantiau. Mae bod yn rhan o TCC yn golygu y gall grwpiau godi materion i'r TCC weithio arnynt, rhannu cefnogaeth a chryfder aelodau eraill, a chael mynediad at hyfforddiant TCC yn rhad ac am ddim.

# Toiledau Changing Places

Mae gwaith yn parhau ar ein hymgyrch Toiledau Changing Places a ddechreuodd o ganlyniad i arweinwyr TCC o sawl grŵp cymunedol gan gynnwys. Outside Lives, Canolfan FDF ar gyfer Byw'n Annibynnol Sir y Fflint, Do-It Sir y Fflint, Ysgol Sant Christopher, ac eraill yn codi mater prinder cyfleusterau o'r fath. Ymatebodd y grŵp materion i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar doiledau cyhoeddus a chyfleusterau newid ym mis Mai 2021.

Toiledau wedi'u haddasu'n arbennig yw Changing Places, sydd â theclynnau codi a gwelyau newid maint oedolion fel nodweddion safonol. Dim ond tua 50 o'r rhain sydd yng Nghymru gyfan, a dim ond 9 yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Ers lansio, rydym wedi gweithio â'r: Eglwys Farmor ym Modelwyddan i wella hygyrchedd eu toiledau; Parc Manwerthu Brychdyn i gael eu hymrwymiad i osod Toiled Changing Places. Mae arweinwyr TCC wedi ffilmio fideo ymgyrchu, a gafodd ei lansio i gyd-fynd â Diwrnod Ymwybyddiaeth Changing Places ar 19eg Gorffennaf. Yn ogystal, mae cynghorau Wrecsam a Sir y Fflint wedi ymgysylltu â ni i lunio eu proses ymgynghori ar strategaeth. Mae ein gwaith ag Aelodau'r Senedd, swyddogion llywodraeth leol, a gweision sifil wedi arwain at gynnydd mawr - ar 16eg Tachwedd, cyhoeddwyd yn y Senedd bod cefnogaeth unfrydol, drawsbleidiol ar gyfer Changing Places i Gymru. Mark Isherwood arweiniodd y ddadl, â Carolyn Thomas, Gareth Davies, Jane Hutt, ymhlith aelodau eraill, yn cefnogi'r cynnig. Bellach mae'r Senedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu mecanwaith ariannu addas, a chanllawiau clir, mewn perthynas â Changing Places fel bod darpariaeth deg ar draws y wlad.

# Diwrnod Cynllunio Blynyddol







Gwnaethom gynnal ein Diwrnod Cynllunio Blynyddol ym mis Ionawr 2023. Rhannwyd y diwrnod yn sesiwn bore a phrynhawn â gwahanol arweinwyr grŵp yn mynychu drwy gydol y dydd. Myfyriodd arweinwyr, staff ac ymddiriedolwyr ar heriau a llwyddiannau 2022 a nodi camau gweithredu i ddatblygu gwaith TCC yn 2023. Mae'r ffocws ar gyfathrebu, ymgysylltu, a gweithredu - â llygad ar ehangu'r sylfaen aelodau bob amser.

Edrychwn ymlaen at drefnu ac adeiladu grym cymunedol â'n haelod-grwpiau dros y flwyddyn i ddod.

# Cyllid TCC


Yn dilyn llawer iawn o waith caled gan y tîm cyfan, rydym yn falch iawn o gyhoeddi llwyddiant ceisiadau gan ddau gorff cyllido:

Ymddiriedolaeth Tudor - Mis Hydref oedd diwedd y cyllid tair blynedd dyfarnodd Ymddiriedolaeth Tudor i TCC. Roedd hwn yn darparu cyllid craidd hanfodol, sydd wedi galluogi prosiect y Loteri, ymhlith prosiectau eraill. Cyflwynwyd adroddiad blwyddyn tri yn ddiweddar, a chyflwynwyd cais am gyllid parhad. Roedd ein cais am gyllid am 3 blynedd yn llwyddiannus.
Paul Hamlyn - Act for Change– cais sy'n canolbwyntio ar drefnydd ieuenctid, â darpariaeth ychwanegol ar gyfer recriwtio Rheolwr Elusen.

# Cyfarfodydd Atebolrwydd


Cynhaliodd arweinwyr TCC Gyfarfodydd Atebolrwydd ag ymgeiswyr ar gyfer wardiau Gogledd Ddwyrain Cymru. Gwahoddwyd pob aelod-grŵp TCC i lunio cwestiynau a chymryd rhan yn y cyfarfodydd ag ymgeiswyr yn sefyll ar gyfer wardiau o fewn eu sir – yn ystod y cyfarfodydd, rhoddwyd 90 eiliad i ymgeiswyr ymateb i'r un cwestiynau yn ymwneud â'r materion sy'n bwysig i TCC. Cynhaliwyd un cyfarfod fesul sir, gan gynnig chwe lle i ymgeiswyr a 15 lle ar gyfer cynrychiolwyr TCC.

Yn Sir y Fflint gwnaethom gyfarfod â Jack Morris (Plaid Cymru), Theresa Murray (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) ac Ian Roberts (Llafur Cymru); yn Wrecsam gwnaethom gyfarfod â David A. Bithell (Grŵp Annibynnol Wrecsam), Natasha Borton (Plaid Cymru), Dana Davies (Llafur Cymru) a Tim Sly (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) oedd i gyd yn sefyll ar gyfer wardiau gwahanol yn Sir Wrecsam; Yn anffodus cafodd cyfarfod Sir Ddinbych ei chanslo oherwydd amgylchiadau annisgwyl a gwrthdaro o ran dyddiaduron.




- Grantiau: £138,386
- Ffioedd aelodau: £4,152
- Rhaglen gefnogwyr: £4,340
- Cymorth Rhodd: £1,067
- Rhoddion: £2,000
- Hyfforddiant: £184
- Llog: £1,140
- Codi Arian: £347

Cyfanswm : **£151,606**




- Cyflogau a threuliau cyflogaeth: £115,829
- Gweithredoedd, cyfieithu, codi arian, hyrwyddo : £3,670
- Llungopïwr, postio a deunydd ysgrifennu: £962
- Amrywiol a dibrisiad: £2,624
- Hyfforddiant: £5,859
- Teithio: £1,246
- Cyfathrebu: £1,450
- Yswiriant a ffioedd cyfreithiol: £4,820

Cyfanswm: **£136,460**

**Ein staff** Mae tîm staff TCC yn cynnwys dau drefnydd cymunedol, trefnydd ieuenctid, gweinyddwr, swyddog cyfathrebu, a swyddog cynhyrchu incwm. Mae'r tîm wedi bod yn cydweithio â strwythur arweinyddiaeth wasgaredig. Mae David Hughes a Bobbi Cockcroft yn drefnwyr cymunedol, Ruth Marshall yw'r trefnydd ieuenctid a chymuned, Sue Williams yw'r gweinyddwr, Dr Stephen Kenyon-Owen yw'r swyddog cyfathrebu, ac Amy Jones yw'r swyddog cynhyrchu incwm.

**Ein hymddiriedolwyr** Mae ein bwrdd ymddiriedolwyr yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Aelodau'r bwrdd yn y flwyddyn hon oedd: yr Hybarch Chris Potter (cadeirydd), y Parch Anna Jane Evans, Mrs Katja Jewell, Ms Melissa Griffiths, Mr Peter Burke, Mr Christopher Graffius, Mrs Zoe Lavery, Mr Darren Hampton, a Mr Oliver Doak. Roedd yr Arglwydd Esgob Gregory Cameron yn gwasanaethu fel noddwr TCC. Anogir pob grŵp i enwebu aelodau i fod yn ymddiriedolwyr.

**Ein cyllidwyr** Rydym yn ddiolchgar iawn i'r cyllidwyr a restrwyd uchod yn ogystal ag Eglwys Bresbyteraidd Cymru, pob un yn darparu grantiau i gefnogi'r gwaith o redeg TCC o ddydd i ddydd. Mae cyfrifon llawn, wedi'u harchwilio'n annibynnol, wedi'u cynnwys yn adroddiad blynyddol TCC.

**Cysylltwch â ni** 37 Ffordd Melin y Brenin, Wrecsam. LL13 8NH / 01978 262588 / www.tcc-wales.org.uk / office@tcc-wales.org.uk

@TCCWales